CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

*Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd, am 7 pm ar 6 Mawrth 2023, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.*

Presennol:
Cadeirydd ~~Cyng Nicky Redmond.~~ Cyngr: Jan Culley, Hywel Davies, Iwan Davies, Ruth Davies, Amanda Edwards, Garethe El Tawab, Colin Lewis, Ken Symmons, ~~Richard Rose~~, Clive Wychwood

CS A Edwards
~~CC C James~~

Clerc

Aelodau'r Cyhoedd: 1

---

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyngr R Rose ac N Redmond.

*Yn absenoldeb y Cadeirydd, cymerwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, y Cyng I Davies.*

**2. Datgan Diddordeb ar Faterion sy'n codi o'r Agenda**
Dim.

**3. Cadarnhau Trefn yr Agenda** a nodi unrhyw eitemau y gellid eu datrys ar gyfer sesiwn gyfrinachol.
Derbyniwyd yr agenda fel y cafodd ei chyflwyno.

**4. Cadarnhau Cofnodion 06-02-23**

| Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir. | Cynigiwyd | Eiliwyd | |
|---|---|---|---|
| | Cyng Edwards | Cyng C Lewis | Cytunwyd |

## 5. Ceisiadau Cynllunio

| Rhif Cynllunio | Lleoliad | Cynnig | Ymateb a Gytunwyd |
|---|---|---|---|
| **A230094** | Fronteifi, Aberteifi, Ceredigion, SA43 2LD | Cais Cynllunio Llawn ar gyfer datblygu tri bwthyn gwyliau, modurdy newydd a gwaith cysylltiedig. | Roedd Cyngor Cymdeithas Llangoedmor wedi gwrthwynebu'r cais am fod ymlediad gweld y fynedfa yn annigonol i'r dwyrain i gyfeiriad Llechryd.<br><br>Mae gwybodaeth leol yn awgrymu y bydd y dyluniad cyfredol yn golygu y bydd man lle na ellir gweld. Bydd y rhai sy'n dod allan o'r safle yn methu â gweld cerbydau'n dod o'r dwyrain.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd yn dymuno, os caiff caniatâd ei roi, y dylid gofyn am le i gerbydau droi ar y safle a dod allan o'r safle tuag ymlaen, nid bacio allan i'r briffordd. |

Mae dogfennau cynllunio i'w gweld yn: https://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and-sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/

*Gorfodi Cynllunio*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*Diweddariad LDP2*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

## 6. Adroddiad y Cynghorydd Sirol

## 7. Cyllid a Gweinyddu

*7.1 Taliadau Misol*

| | | |
|---|---|---|
| S Davies | Cyflog gros,  SC 25, ffôn 7.50, postio 0.95, drysau draenogod 29.96 | 420.43 |
| Glasdon | Anf si856982 Sedd Lowther (mainc goffa) | 758.12 |

| | | |
|---|---|---|
| Neuadd y Cwrwgl | Hurio'r Neuadd Anf 907 | 20.00 |
| Cymorth Cynllunio Cymru | Hyfforddiant Cyngr | 35.00 |
| Un Llais Cymru | Aelodaeth | 239.00 |
| ICO | Ffi | 35.00 |
| LAS | Sbwriel | 26.01 |
| Danfo | Anfoneb 67883 Ion 23 glanhau a sbwriel | 340.50 |

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Derbyn y taliadau fel y cawsant eu cyflwyno. | Cytuno |

*7.1.2 Cymhwysiad Banc*
I gael ei ddarparu.

*7.2 Cyfarfodydd y dyfodol*
*7.2.1 Cyfieithu yng nghyfarfodydd y Cyngor*
Nodwyd bod set pen modern ar gyfer cyfieithu ar y pryd yn costio £150. Nid oedd y Clerc wedi siarad eto â'r cyfieithydd.

*7.2.2 Defnyddio'r Hen Ysgol, Llangoedmor*
Dywedodd yr Ymddiriedolwyr y gellid ystyried darparu band eang. Y gost sylfaenol ar hyn o bryd fyddai £120 am linell ffôn (os nad oes un eisoes wedi ei gosod) a £23 y mis am fand eang. Roedd un o gynrychiolwyr yr Ymddiriedolwyr wedi mynegi pryder na fyddai'r costau'n cael eu clirio gan fod cyn lleied yn llogi'r lle. Ni fyddai darpariaeth benodol i alluogi cynnal cyfarfodydd hybrid.

*7.3 Cofrestru tir*
Yn parhau.

*7.4 Cylchlythyr*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*7.5 Diweddaraf am rodd o dir a chytuno ar unrhyw ymateb*

Ar ôl nodi'r wybodaeth a ddarparwyd gan Ysgutor yr ystâd, dywedwyd bod person arall yn hawlio perchnogaeth y tir dan sylw, 3 hyd yma heb gynnwys ystyried y rhodd. Roedd yr anghydfod presennol am berchnogaeth rhwng yr Ystâd a'r rheiny sy'n hawlio perchnogaeth. Er bod y Cyngor yn cydymdeimlo ag Ysgutor yr Ystâd, a oedd wedi bod mewn cyfarfod o'r Cyngor

ac wedi darparu mapiau a gwybodaeth, ni theimlwyd ei bod yn briodol inni ddefnyddio arian cyhoeddus mewn anghydfod am berchnogaeth tir nad oedd eto ym meddiant y Cyngor.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gohirio'r mater tan y cyfarfod ym mis Ebrill tra bydd y Cyngor yn dal i bwyso ar y Cyfreithiwr am gadarnhad fod yr anghydfod perchnogaeth yn cael sylw, a'r canlyniad..<br>Byddai'r Cyngor yn dweud wrth yr Ysgutor am eu penderfyniad. | Cytunwyd |

*7.6 Arwydd Diffib ym mharc ceir Neuadd y Cwrwgl*

Dywedodd y Cyng A Edwards fod ganddi ddiddordeb personol yn y cwmni sy'n darparu'r dyfynbris. Ond ni chymerodd ran yn y bleidlais.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gan and oedd dewis addas arall i roi cost ar gyfer y safle, derbyniwyd y dyfynbris o £85.87 | Cytunwyd |

*7.7 CAIS AM ENWEBIADAU AR GYFER ANRHYDEDDAU BLWYDDYN NEWYDD Y BRENIN 2024*
HonoursPN@gov.wales erbyn dydd Gwener 31 Mawrth 2023

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Nid oedd ymgeisydd addas wedi ei enwi. | Cytunwyd |

*7.8 7 Seren*
Er nad oedd yn ofynnol iddi wneud hynny, dywedodd y Clerc fod cyfaill agos iddi yn gyd-berchennog y gwerthwyr tai sy'n marchnata'r eiddo. Nid oedd ganddi ddim cysylltiad arall â'r busnes.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Ar ôl trafod y mater yn fanwl, cytunwyd nad oedd y Cyngor mewn sefyllfa i arwain ymgyrch i brynu'r dafarn nac i'w chymryd fel cynllun busnes eu hunain, o gofio'r cyfyngiadau a'r costau y byddai hynny'n ei olygu. | Cytunwyd |

*7.9 Digwyddiad ymgysylltu cymunedol, Neuadd y Cwrwgl, 1-04-23*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cefnogi'r digwyddiad a bod pawb a allai fod yn bresennol yn helpu. | Cytunwyd |

*7.10 Aelodaeth Un Llais Cymru 2023-2024 Llangoedmor*
Gweler eitem 7

**8. Pwyllgorau**
*Y Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethiant ar gyfer Cynghorau Trefn a Chymuned*
13-02-23 drwy gyfrwng Zoom
Aelodau'r Pwyllgor Cyngr J Culley, A Edwards, R Davies, C Wychwood.
Dywedodd y Cadeirydd, y Cyng J Culley, fod nifer o eitemau wedi eu nodi gan fod y Clerc wedi cwblhau rhan un cyn y cyfarfod. Maes o law byddai'r rhain yn cael sylw manylach yng nghyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol ac argymhellion yn cael eu darparu i'r Cyngor.

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*9.1 Mannau gweithredu – Priffyrdd i gynnwys Croes-y-llan*
Nodwyd y llythyr oddi wrth CSC. Cytunwyd, er bod cais am lwybrau troed ac ymyrryd ar gyflymdra yn cael sylw yn y llythyr, ar ôl cyflwyno 20mya byddai rhai ardaloedd yn dal heb eu cynnwys

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cysylltu â CSC am ddiogelwch y gyffordd wrth Penllwyn-du a'r darn syth ar y B4570. Hefyd dylai unrhyw ddiweddariad am y dogfennau Teithio Llesol gael ei fonitro a gweithredu arno i adlewyrchu pryderon y Cyngor. | Carried |

*9.1.1 Arhosfan Bws Croes-y-llan*
*Derbyn adroddiad gan y Cynghorwyr am ymateb trigolion i'r cynnig.*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Mae'r holiadur arfaethedig ar gyfer trigolion yn canolbwyntio ar yr arwydd arhosfan bws a'r marciau. | Cytunwyd |

*9.1.2 Croesfan yn Llechryd*
*Derbyn adroddiad oddi wrth y Cynghorwyr am ymateb trigolion a'r ysgol i'r cynnig.*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*9.2 Llwybrau troed / mannau agored*
*9.2.1 Cofrestru'r lllwybr troed*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gwario'r arian angenrheidiol i ddarparu prawf o berchnogaeth y tir ar y llwybr troed. | Cytunwyd |

*9.2.3 15-04-23, 10 am, Paths for Wellbeing, Digwyddiad Dathlu*
Nodwyd.
Gofynnwyd a oedd CSC wedi adnewyddu'r marcwyr llwybrau troed.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Dilyn y ceisiadau blaenorol. | Cytunwyd |

*9.3 Pont Llechryd / yr Afon – Nodi'r sefyllfa bresennol a chytuno ar unrhyw weithredu pellach.*
Mynegwyd pryder mai'r boncyffion mawr a'r canghennau'n unig oedd wedi eu symud a'u gosod ar y glannau. Roedd llwyni bach a sbwriel wedi eu gadael.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Y fideo o'r gwaith i gael ei anfon at y Clerc, a fyddai'n cysylltu â'r Cynghorydd Sirol am y mater. | Cytunwyd |

*9.4 Dŵr ar draws y ffordd ger Cwrcoed Uchaf – egluro'r lleoliad*

Datgelodd y Cyng C Wychwood ddiddordeb personol yn yr eitem hon.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Er mwyn eglurder, roedd y cyfeiriad at yr eiddo er mwyn darparu lleoliad ar gyfer yr ardal yn gyffredinol yn unig. Nid oedd bwriad i awgrymu bod unrhyw ddŵr neu hylif i'w briodoli'n uniongyrchol i'r eiddo. | Cytunwyd |

Cadarnhawyd y dylid anfon lleoliad arfaethedig y bin halen at y Clerc fel y cytunwyd yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor.

**10. Amwynderau**
*10.1 Bloc Toiledau – dogfennau tenantiaeth yn dal heb eu cytuno.*
Nodwyd.

*10.2 Man / Cae Chwarae – pob penderfyniad yn amodol ar ei gymeradwyo gan* Gymdeithas Cae Chwarae Llechryd.

*10.2.1 Gwaith heb ei wneud gan gynnwys gwaith trwsio o archwiliad ROSPA 2022*
Yn parhau.

*10.2.2 Cyflwr llwybr y ffin.*
Yn parhau.

*10.2.3 Baw Cŵn*
Roedd achosion o faw cŵn yn cynyddu, yn enwedig ar y cae chwarae. Nodwyd bod y Cyngor wedi ystyried ac wedi dweud mewn cyfarfod â'r Ymddiriedolwr am osod gatiau i'r ardal. Ystyriwyd y byddai'n anymarferol ac efallai'n ddrud iawn pan drafodwyd hyn gynt.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Y Clerc i edrych am gyfeiriadau at y gwaith. | Cytunwyd |

10.2.4 *Adnewyddu'r ffrâm ddringo – bydd yn dal yn eiddo i'r CC*
*Problemau Sovereign gyda'r gosod*

*10.3 Eglwys y Groes Sanctaidd, Llechryd*
Yn parhau.

*10.4 Adeilad y Mileniwm*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*10.5 Mainc goffa i drigolion*
Roedd hon wedi cyrraedd y Cyng R Davies ac yn disgwyl cael ei gosod.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cyng I Davies i ddarparu manylion cyswllt ar gyfer contractwyr i gael dyfynbris i'w gosod. | Cytunwyd |

*10.6 Darparu rhandiroedd*
Yn parhau.

*10.7 Cysgodfannau bws*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*10.8 Diffibrileiddwyr*
Hyfforddiant: Neuadd y Cwrwgl, 22 Mawrth 2023, 7.30pm.

Neuadd y Cwrwgl
Llangoedmor

*10.9 Hysbysfyrddau*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*10.10 Biniau newydd (postyn, clawr, man chwarae)*
Yn parhau.

**11. Digwyddiadau**
*11.1 Glanhau Afon Teifi*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*11.2 Cinio'r Coroni, Dydd Sul 7 Mai*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Roedd y Cyngor yn cefnogi'r digwyddiad a byddai'n talu am y canlynol: baneri'r coroni, gwobrau, treuliau achlysurol megis te, coffi, etc, y drwydded PRS ar gyfer y Neuadd os byddai angen, hurio'r Neuadd, ac yn ddibynnol ar gadarnhau'r costau, adloniant.<br><br>Mynegwyd pryder am y baw cŵn ar y cae os byddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gemau a'r picnic. | Cytunwyd |

| | |
|---|---|
| Byddid yn gofyn i'r gweithgor ystyried darparu memorabilia'r coroni i blant lleol, megis mwg y coroni. | |

**12. Adroddiadau cyfarfodydd**

Derbyn unrhyw adroddiadau.

*12.1 Cyng R Davies - Llywodraethwyr Ysgol*

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*12.2 Cyng A Edwards – Neuadd y Cwrwgl*

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*12.3 Cyngr A Edwards ac R Davies - Cyfarfod PACT*

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*12.4 Grŵp Gwytnwch (i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am lifogydd)*

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*12.5 Cyng J Culley Pwyllgor Rhanbarthol Un Llais Cymru*

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*12.6 Cyng J Culley Pwyllgor Moeseg a Safonau*

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**13. Gohebiaeth (i gynnwys dogfennau ymgynghori heb eu cynnwys dan unrhyw bennawd arall)**

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**14. Materion Personol Cyfnewid Gwybodaeth gan Gynghorwyr**

Arian ar gyfer Pwll Nofio Aberteifi, eitem ar agenda mis Ebrill..

**15. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 03-04-23**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.52pm.*